AROLWG TAI

Mae prif cymdeithas dai Gwynedd ac Ynys Môn wedi derbyn cymeradwyaeth arolygwyr am safon y gwasanaeth craidd o ddarparu cartrefi i bobl yr ardal

Ond canfu'r arolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynt eleni yr angen i Gymdeithas Tai Eryri wella'r modd y mae'n cysylltu â'r tenantiaid a'r modd y mae'r gymdeithas yn ymroi i gynnal gwelliannau parhaus.

"Rydym yn hapus i'r pedwar arolygydd ddod i'r casgliad ein bod yn darparu ac yn rheoli cartrefi i safon derbyniol," meddai Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Eryri, Walis George.

"Ond rydym lawn mor siomedig gyda'r gwendidau a nodwyd ganddynt," ychwanegodd.

Roedd yr arolygwyr yn arbennig o falch o ran allweddol Cymdeithas Tai Eryri mewn sefydlu Hwylusydd Tai Gwledig sy'n gweithio gyda chymunedau gwledig er mwyn mesur yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardaloedd mwyaf gwasgaredig eu poblogaeth.

"Mae gwaith yr Hwylusydd Tai Gwledig eisoes wedi arwain ac godi tai fforddiadwy yn

Nyffryn Ardudwy a Llanuwchllyn gyda cynlluniau eraill ar y gweill," ychwanegodd Walis George.

"Roedd y cynghorau cymuned lleol yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd gyda gosod neu werthu'r tai i'r preswylwyr," meddai.

Mae adroddiad yr arolygwyr hefyd yn canmol Cymdeithas Tai Eryri am y trefniadau ar gyfer thenantiaid sydd angen cartrefi cefnogol yn ogystal â'r gwasanaeth gosod tai. Ond dywed yr adroddiad hefyd bod angen gwelliant sylweddol yng nghyfleoedd cyfranogi'r tenantiaid, mewn monitro cyfleoedd cyfartal ac mewn cynnal a chadw'r eiddo.

"Rwy'n croesawu adroddiad yr arolygwyr gan na ydym am orffwys ar ein rhwyfau ynglŷn â'r angen i wella'n gwasanaethau'n barhaus," meddai Walis George.

"Mae arolygiadau rheolaidd yn cynnig barn annibynnol am ein llwyddiannau ac ar sut y gallwn wella ein cyfrifoldeb craidd o ddarparu cartrefi diogel a chyfforddus sy'n ateb anghenion pobl leol," ychwanegodd.

Mae Cymdeithas Tai Eryri yn 30 mlwydd oed eleni ac yn gyfrifol am 1,700 o gartrefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd Rheoli gwirfoddol o 15 aelod sy'n cynnwys pump tenant wedi'u hethol gan eu cyd-denantau yn ogystal ag aelodau lleyg.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn dynodi'r angen am arolygiadau rheolaidd o gymdeithasau tai yng Nghymru i weld os ydynt yn ateb disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.

"Ein cyfrifoldeb ni bellach wedi derbyn cynnwys adroddiad yr arolygwyr a gweithredu ar yr argymhellion," ychwanegodd Walis George. "Heb os mae Cymdeithas Tai Eryri ar y trywydd iawn ond mae'n amlwg bod angen gwella rhai elfennau allweddol er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posib."